# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Mai 2019

Amser: 09.20

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Papur(au) i'w nodi

(Tudalennau 1 - 3)

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai 2019

**2.1 PTN1 - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd - Cyllidebau atodol 2019-20 - 30 Ebrill 2019**

(Tudalen 4)

**2.2 PTN2 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit - Bil Deddfwriaeth (Cymru) - Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor - 3 Mai 2019**

(Tudalennau 5 - 8)

## 3 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): Sesiwn dystiolaeth

(09.20-10.20) (Tudalennau 9 - 46)

Julie Morgan AC, Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Karen Cornish, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Plant a Theuluoedd

Sarah Canning, Pennaeth y Gangen Deddfwriaeth, Ymchwil a Rhianta

Papur 1 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - 5 Ebrill 2019

Papur 2 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg - 25 Ebrill 2019

Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

Briff Ymchwil

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 7-8 ac ar gyfer dechrau'r cyfarfod ar 15 Mai 2019

(10.20)

## 5 Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru): trafod y dystiolaeth

(10.20-10.30)

## 6 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 3

(10.40-11.40) (Tudalennau 47 - 65)

David Ward, Prif Weithredwr, Grŵp Tirion

Howel Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Rhaglenni a Phrosiectau, Partneriaethau Lleol

Rosie Pearson, Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Busnes, a Chyfarwyddwr Rhaglen PPP a PFI, Partneriaethau Lleol

Papur 3 - Tystiolaeth ysgrifenedig: Grŵp Tirion

Briff Ymchwil

## 7 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth

(11.40-11.50)

## 8 Taliadau cadw yn y diwydiant adeiladu

(11.50-12.05) (Tudalennau 66 - 72)

Papur 4 - Taliadau cadw yn y diwydiant adeiladu

## 9 Comisiwn y Cynulliad – Diweddariad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a Llacio Cap y Sefydliad

(12.05-12.20) (Tudalennau 73 – 78)

Papur 5 – Llythyr gan y Comisiwn y Cynulliad – Diweddariad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a Llacio Cap y Sefydliad – 3 Mai 2019

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Mai 2019

Amser: 09. - 12.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5496

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Alun Davies AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Nick Ramsay AC |
| Tystion: | Gerald Holtham<br>Dr Stanimira Milcheva, Coleg Prifysgol Llundain<br>Peter Reekie, Scottish Futures Trust |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)<br>Roger Ford (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar ôl eu llythyrau'n gwrthod gwahoddiad y Pwyllgor i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

### 2.1 PTN 1 - Llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys - Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru - 2 Ebrill 2019

### 2.2 PTN2 - Llythyr gan y Gwir Anrh. Alun Cairns AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru - Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru - 10 Ebrill 2019

## 3 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 1

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gerald Holtham, Athro Hodge mewn Economi Ranbarthol a Dr Stanimira Milcheva, Athro Cyswllt mewn Eiddo Tirol a Chyllid Seilwaith, Coleg Prifysgol Llundain ar ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

## 4 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Peter Reekie, Prif Weithredwr, Scottish Futures Trust, ar ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i ffynonellau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Dull ar gyfer Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull ar gyfer craffu ar gyllideb ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru, a chytuno i wneud y canlynol:

- cynnal digwyddiad rhanddeiliaid yn y canolbarth ar 27 Mehefin 2019;
- ysgrifennu at bwyllgorau polisi eraill, gan nodi nifer o themâu ar gyfer gwaith craffu;
- cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ddisgwyliadau rhanddeiliaid o gyllideb ddrafft 2020-21 i lywio gwaith craffu'r Pwyllgor, sydd i'w wneud dros doriad yr haf;
- rhoi cyngor arbenigol mewn perthynas â'r polisi treth.

## 8 Cyllideb Atodol 1af 2019-20 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

8.1 Nododd y Pwyllgor gais yr Ombwdsmon am gyllideb atodol a chytunodd i'w drafod ymhellach pan gyflwynir y cynnig cyllideb atodol.

Y Pwyllgor Cyllid | Finance Committee
FIN(5)-12-19 PTN1

Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA-P/RE/1480/19

Llyr Gruffydd AC,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1NA

30 Ebrill 2019

Annwyl Llyr,

Ysgrifennaf i roi gwybod ichi am ein dull gweithredu o ran cyhoeddi Cyllidebau Atodol yn ystod 2019-20.

Rwy'n bwriadu parhau â'r arfer a ddilynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf a chyhoeddi dwy Gyllideb Atodol yn ystod y flwyddyn ariannol.

Bydd cyllideb atodol gyntaf yn cael ei chyflwyno ar 18 Mehefin i ganiatáu ar gyfer dadl, ar 9 Gorffennaf, cyn toriad yr haf. Mae hyn yn rhoi tair wythnos ar gyfer craffu o dan y Rheolau Sefydlog.

Bydd y gyllideb yn darparu cyfle i adlewyrchu'r newidiadau sy'n deillio o ymarfer Llywodraeth y DU ar Brif Amcangyfrifon, ochr yn ochr ag unrhyw ddyraniadau o'n cronfeydd wrth gefn.

Gan ddilyn yr arfer gyfredol unwaith eto, rwyf yn bwriadu cyhoeddi ail gyllideb atodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Jeremy Miles AC/AM**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**
**Counsel General and Brexit Minister**

Eitem 2.2

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L/CG/0379/19

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3 Mai 2019

Annwyl Llyr

**BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU)**

Yn ystod dadl Cyfnod 1 ar 2 Ebrill, dywedais y byddwn yn ysgrifennu at y at y Pwyllgor yn ymateb yn fanwl i'ch adroddiad ar oblygiadau ariannol y Bil. Mae'r llythyr hwn yn nodi ymateb y Llywodraeth i'r pedwar argymhelliad a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor.

**Argymhelliad 1**

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai'r Llywodraeth wneud rhagor o waith i ddadansoddi a nodi symiau'r arbedion effeithlonrwydd yn y Bil.

Fel y gwnaethoch gydnabod yn y ddadl Cyfnod 1, er bod yr asesiad effaith gan Gomisiwn y Gyfraith yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn, y prif gymhelliant ar gyfer y Bil hwn yw gwella cyfiawnder cymdeithasol drwy sicrhau y gall y cyhoedd gael mynediad yn haws i gyfraith Cymru, ac rydych chi'n derbyn nad arbedion cost yw'r prif reswm dros gyflwyno'r Bil.

Rydym yn parhau i ystyried bod rheolaeth y gyfraith yn mynnu cyfraith sy'n hygyrch, a dyma sylfaen ein hymagwedd at y Bil hwn a'r rhaglen ehangach. Rydym yn cydnabod hefyd ei bod yn debygol y bydd buddion economaidd, a hynny ar lefel prosiectau unigol ac o'r rhaglen yn ei chrynswth. Rhoes tystiolaeth Comisiwn y Gyfraith i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod Cyfnod 1 yr enghraifft o'r gyfraith gynllunio. Roeddent o'r farn y ei bod:

> *"…the sort of measure that, if simplified, if it succeeds in creating legal certainty, can stimulate inward investment. It can accelerate planning decisions that mean that people are more likely to invest in Wales than elsewhere. So, we are very interested in the fact that good legislation can have positive economic benefits."*

Credaf fod hwn yn syniad a fydd yn gymwys mewn meysydd eraill y byddwn yn eu cydgrynhoi a'u codeiddio, ac fe gaiff ei wella gan y prosiectau cysylltiedig megis y gwelliannau i wefan Cyfraith Cymru/Law Wales. Bydd meddu ar wybodaeth glir a hygyrch am y gyfraith, yn ogystal â chopïau cyfredol o'r ddeddfwriaeth, a fydd ar gael am ddim i ddefnyddwyr yn arwain at arbed amser a gwella hyder mewn prosesau penderfynu a rhyngweithio â'r wladwriaeth yn fwy cyffredinol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCGBM@gov.wales/YPCCGB@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil yn nodi rhesymeg y Llywodraeth dros nodi asesiad effaith Comisiwn y Gyfraith, heb ei brofi ymhellach. Er y gallai'r Llywodraeth gynnal ymarfer tebyg i amcangyfrif yr amser sy'n cael ei dreulio gan gyfreithwyr yn ymchwilio i gyfraith anhygyrch, a chymharu hynny dag amcangyfrif o'r amser fyddai'n cael ei arbed, nid ydym o'r farn y byddai hynny'n darparu unrhyw ganfyddiadau cadarnach neu fwy pendant na'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd.  Byddai problemau hefyd wrth geisio profi a lwyddwyd i arbed yr amser hwn mewn gwirionedd ar ddiwedd y rhaglen gyffredinol (a fydd yn cymryd cenhedlaeth neu fwy i'w chyflawni). Mae hyn yn rhannol yn sgil yr amserlenni dan sylw, ac yn rhannol gan y bydd yn anodd gweld pa arbedion y gellir eu priodoli yn uniongyrchol i'r Bil.

**Argymhelliad 2**

Yn nadl Cyfnod 1, dywedais fod y Llywodraeth yn derbyn argymhelliad 6 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, sef y dylid cynnal adolygiad o'r ddeddfwriaeth hanner ffordd drwy dymor nesaf y Cynulliad.

Bwriedir i adolygiad y Cwnsler Cyffredinol yn 2023 gynnwys manylion goblygiadau ariannol ac adnoddau darparu'r rhaglen gyntaf a fydd yn anelu at wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a chostau eraill sy'n codi wrth roi'r Ddeddf ar waith. Rydym felly yn derbyn Argymhelliad 2 adroddiad y Pwyllgor Cyllid.

Byddai'r Llywodraeth hefyd yn cefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo adolygu'r ddeddfwriaeth ar unrhyw adeg y byddai'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

**Argymhelliad 3**

Argymhellodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth bellach am y goblygiadau ariannol ar gyfer staff polisi nad ydynt wedi'u nodi fel costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a'r costau i gyrff eraill. Rydych wedi gofyn i i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig.

Gallaf gadarnhau y bydd unrhyw Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig a fydd yn cael ei baratoi ar ddiwedd Cyfnod 2 yn cynnwys enghraifft o'r costau i Lywodraeth Cymru wrth baratoi Bil cydgrynhoi, ond rhaid i mi bwysleisio mai costau dangosol neu gostau sampl fydd y rhain, ac ni ddylid eu hystyried fel costau pendant na'u bod yn gynrychioladol o bob prosiect cydgrynhoi. Y rheswm am hynny yw ein bod yn rhagweld y bydd amrywiaeth eang o ran maint, cymhlethdod a hyd prosiectau drafftio unigol, ac amrywiol fewnbynnau gan staff polisi gan ddibynnu ar anghenion pob prosiect.

O ran â Rhan 1 o'r Bil, roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn debygol y bydd costau i Gomisiwn y Cynulliad wrth ddatblygu Rheol Sefydlog ar gyfer Biliau cydgrynhoi.  Nid oes rhaid pasio'r Bil cyn datblygu Rheol Sefydlog, ac mae gwaith yn mynd rhagddo eisoes (gan Gomisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru) yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Busnes i baratoi gweithdrefn addas. O ganlyniad, nid ydym yn cytuno y dylai'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol adlewyrchu'r gost hon, gan nad yw'n deillio o'r Bil ei hun.

Roedd y Pwyllgor hefyd o'r farn y bydd costau i sefydliadau sector preifat o ran deall y gyfraith newydd (mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil). Roedd fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar y pwynt hwn (a ddyfynnir ym mharagraffau 24 a 29) yn ymwneud yn benodol â Rhan 2 o'r Bil. Er hynny, rwyf yn parhau i ddweud na fydd angen i sefydliadau o'r fath, a chyfreithwyr y sector preifat, wneud mwy na nodi bod darpariaethau dehongli newydd yn eu lle ar gyfer cyfraith Cymru a wneir ar ôl y dyddiad cychwyn (ar hyn o bryd 1 Ionawr 2020). Rydym felly yn parhau i ddweud y byddai hyn yn waith arferol i gyfreithwyr y sector preifat. Rydym yn cydnabod bod y goblygiadau ar gyfer cyfreithwyr y sector cyhoeddus, yn arbennig y rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth, ychydig yn fwy sylweddol. Felly rydym yn darparu cyngor a

chyfarwyddyd iddynt, i leihau unrhyw faich sydd arnynt (fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i'r Bil).

**Argymhelliad 4**

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi cyhoeddusrwydd i'r Bil, o'i ddeddfu – rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac yn rhoi rhagor o wybodaeth isod.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder mai nifer cyfyngedig o weithgareddau cyhoeddusrwydd sydd wedi'u trefnu, gan ei fod o'r farn bod angen ymgysylltiad ehangach â'r cyhoedd i gyflawni'r manteision yr ydym yn eu disgwyl. Fel arfer byddem yn cytuno bod ymgysylltiad eang â'r rhai y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt yn hanfodol wrth roi unrhyw gynllun deddfwriaethol newydd ar waith. Er hynny, mae ein dull gweithredu, a nodir isod, yn adlewyrchu natur anarferol, ac unigryw o bosibl, y Bil hwn.

Mae Rhan 1 o'r wedi'i hanelu at y Llywodraeth yn hytrach na'r cyhoedd. Y manteision a welwn yn datblygu o'r rhaglenni hygyrchedd yw cyfreithiau dwyieithog Cymru, wedi'u cydgrynhoi a'u codeiddio, a fydd yn glir ac yn bendant o ran eu heffaith yn ogystal â bod yn hawdd cael gafael arnynt a'u trafod. Y cyfreithiau newydd hynny yw'r rhai y bydd angen eu hyrwyddo'n eang, ac fe fyddwn yn sicrhau bod trefniadau clir yn eu lle ar gyfer pob Deddf newydd i sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth wedi'i chodeiddio a'i goblygiadau. Ystyrir mai cyfyngedig fyddai effaith hyrwyddo Rhan 1 o'r Bil yn ehangach felly, gan mai dull o gyflawni gwelliannau ydyw yn hytrach na'r gwelliannau eu hunain rydym ni i gyd am eu gweld.

Er hynny, byddwn yn gosod manylion am y Ddeddf (o'i phasio) ar wefan Cyfraith Cymru/Law Wales, a'r bwriad yw ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu pob rhaglen hygyrchedd. Fel y dywedais uchod, rydym hefyd yn bwriadu adrodd yn flynyddol wrth y Cynulliad ynghylch cynnydd wrth gyflawni pob rhaglen (gweler argymhelliad 10 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, a gwelliant 3 a osodwyd ar 4 Ebrill). Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cael eu defnyddio i dynnu sylw at Ran 1 o'r Bil.

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, bwriedir i Ran 2 o'r Bil (fel y rhan fwyaf o Ddeddfau dehongli yn awdurdodaethau'r Gymanwlad) fodoli i bob pwrpas yn y cefndir, fel rhan o beirianwaith y gyfraith na fydd angen i'r darllenydd cyffredin droi ato yn rheolaidd. Ond mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn cydnabod y bydd drafftwyr Llywodraeth Cymru, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth ac ysgolion cyfraith yng Nghymru yn elwa o gael gwybod am y newidiadau yn sgil Rhan 2 o'i ddeddfu. Am y rheswm hwnnw, rydym wedi nodi y byddwn yn rhoi gwybodaeth ar wefannau Cyfraith Cymru/Law Wales am Ddeddfau dehongli yn gyffredinol, ac yn benodol am y Ddeddf hon. Byddwn yn dwyn yr wybodaeth honno i sylw Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar a CILEX. Byddwn yn rhoi gwybodaeth debyg i Bwyllgor Hyfforddiant Cymru y Coleg Barnwrol a Phenaethiaid Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru.

Mae Rhan 3 o'r Bil yn arbennig o berthnasol i'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth, ac fe fydd y canllawiau yr ydym yn cyfeirio atynt yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac a nodwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad, yn cynnwys gwybodaeth am yr elfen hon o'r Bil.

Hoffwn achub y cyfle hwn i ailadrodd fy sylwadau yn Nadl Cyfnod 1, a diolch i'r Pwyllgor am eu gwaith yn craffu ar y Bil a'u hadroddiad defnyddiol, a diolch hefyd i staff cymorth y Pwyllgor.

Yn gywir



**Jeremy Miles AC**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit
Counsel General and Brexit Minister

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Eitem 3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-L/JM/194/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCYPE@cynulliad.cymru

5 Ebrill 2019

Annwyl Lynne

Yn dilyn cyflwyno Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 25 Mawrth 2019, rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o wybodaeth ichi mewn perthynas â data gwasanaethau cymdeithasol y rhoddir sylw iddynt yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â'r Bil.

Darperir yr wybodaeth hon i helpu'r Pwyllgor wrth gynnal eu gwaith craffu ar y Bil.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu pennu llinell sylfaen nifer yr achosion o gosbau rhesymol a gaiff eu cyfeirio at adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio data presennol y gwasanaethau cymdeithasol. Gan fod amddiffyniad cosb resymol yn bodoli ar hyn o bryd, nid yw adrannau gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn casglu gwybodaeth am gosbau corfforol yn benodol. Felly, nid oes data a gyhoeddwyd neu sydd ar gael yn rhwydd i'w defnyddio fel llinell sylfaen.

Rydym wedi cynnal llawer o waith i geisio pennu llinell sylfaen ar gyfer achosion a gyfeirir at y gwasanaethau cymdeithasol. Fel rhan o'r gwaith hwnnw ar y cyd â'r awdurdodau lleol, rydym wedi dod i wybod nad yw'r awdurdodau lleol o reidrwydd yn cofnodi'r manylion penodol am achos a gyfeirir nac yn cofnodi achos yn y lle cyntaf ar ffurf y gellir chwilio amdano. Mae manylion pob achos, cofnod neu adroddiad fel arfer yn cael eu cadarnhau yn nes ymlaen yn y broses. Mae hyn wedi creu heriau wrth geisio gwahanu'r data sy'n ymwneud â chosbi plant yn gorfforol lle byddai amddiffyniad cosb resymol yn berthnasol.

Mae'r ffordd y mae achosion yn cael eu cofnodi yn amrywio ymhlith y 22 o awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae rhai ohonynt yn cofnodi'r manylion o dan faterion amddiffyn plant, ac eraill o dan faterion lles plant neu o dan gategoreiddiadau eraill.

Rydym wedi ystyried nifer o opsiynau er mwyn inni gael hyd i ddata perthnasol y gellid eu defnyddio fel amcan agos ar gyfer llinell sylfaen, ond nid ydym eto wedi gallu pennu set ddata sylfaenol presennol sy'n ddigon cadarn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, ac wrthi ar hyn o bryd yn cydweithio â rhai o'r awdurdodau lleol i geisio pennu llinell sylfaen ddigon manwl, sy'n seiliedig ar y dull yr oedd y pedwar heddlu yng Nghymru wedi gallu ei ddefnyddio wrth ddadansoddi eu data.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y broses i bennu llinell sylfaen ar gyfer data gwasanaethau cymdeithasol wrth i'r wybodaeth ddod i law, ac edrychaf ymlaen at gyflwyno tystiolaeth i'r pwyllgor maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y pwyllgorau Cyllid a Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, gan eu bod nhw'n craffu ar y Bil hwn hefyd.

Yn gywir



**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/JM/0382/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

25 Ebrill 2019

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Ebrill yn gofyn am eglurhad ynghylch rhai pwyntiau penodol mewn perthynas â Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru).

Hyderaf y bydd yr wybodaeth a ddarperir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn o ddefnydd i'r Pwyllgor. Edrychaf ymlaen at drafod â'r Pwyllgor ar 2 Mai sut bydd y Bil yn diogelu hawliau plant.

Yn gywir,

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD**

**Ymosod a churo**

***"Ar wahanol bwyntiau yn y Memorandwm Esboniadol (e.e. paragraff 1.1 a pharagraff 1.4) dywedir bod y Bil yn diddymu'r amddiffyniad cosb resymol fel amddiffyniad i ymosod ar blentyn neu'i guro. Mae adran 1 o'r Bil yn dileu'r amddiffyniad o gosb resymol mewn perthynas â chosb gorfforol i blentyn gan rieni neu'r rheini sy'n gweithredu in loco parentis. Diffinnir cosb gorfforol yn adran 1(5) o'r Bil i olygu curo a wneir fel cosb. A allwch gadarnhau sut y caiff yr amddiffyniad ei ddileu mewn achosion o ymosodiad?"***

Mae'r dull sy'n cael ei nodi yn y Bil yn gyson â'r hyn a ddigwyddodd mewn perthynas â chosb gorfforol mewn ysgolion drwy adran 548 o Ddeddf Addysg 1996. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw awgrym neu bryder fod adran 548 wedi caniatáu'r posibilrwydd y gallai athrawon ddefnyddio'r amddiffyniad fod bygythiadau i gosbi disgyblion yn gorfforol yn gyfreithlon.

I ymosodiad ddigwydd, rhaid i berson ofni bod trais neu rym anghyfreithlon yn mynd i gael ei ddefnyddio ar unwaith. Felly, yn dilyn hynny, nid yw ofni bod grym *cyfreithlon* yn mynd i gael ei ddefnyddio ar unwaith yn ymosodiad (er enghraifft rhagweld gwrthdrawiad mewn gêm o rygbi; lle bo cydsynio i gymryd rhan yn peri i'r cysylltiad fod yn un cyfreithlon). Ar hyn o bryd, mae'n bosibl i unrhyw weithred sy'n achosi i blentyn ofni ei fod yn mynd i gael smacen, er enghraifft, gael ei amddiffyn a bod yn gyfreithlon, drwy gyfeirio at yr amddiffyniad presennol (a bwrw bod yr oedolyn dan sylw yn rhiant neu in loco parentis).

Bydd diddymu'r amddiffyniad mewn perthynas ag unrhyw fath o gosb gorfforol, ni waeth beth fo lefel y niwed a achosir, yn golygu y bydd pob gweithred sy'n gyfystyr â churo a ddiffinnir yn adran 1 o'r Bil yn anghyfreithlon. Felly, yn fras, ni all unrhyw weithred sy'n achosi i rywun ofni bod 'cosb gorfforol' yn mynd i gael ei defnyddio ar unwaith gael ei amddiffyn mewn perthynas â honiad o ymosodiad neu o dresmasu yn erbyn y person. Mae'r rhyngweithio rhwng, ar y naill law, ddiddymu'r amddiffyniad drwy statud mewn perthynas â math penodol o guro, ac ar y llall, y gyfraith gyffredin bresennol mewn perthynas ag ymosod, yn cyflawni'r canlyniad cywir.

Hynny yw, ar ôl i'r amddiffyniad gael ei ddiddymu mewn perthynas â churo sy'n gyfystyr â chosb gorfforol, ni all ymosodiad drwy fygythiad o gosb gorfforol o unrhyw fath yn dilyn hynny (a fydd yn anghyfreithlon pan fydd y Bil yn dod i rym, ni waeth pa mor ddifrifol yw'r gosb) gael ei amddiffyn mewn achosion cyfreithiol.

<u>**Gweithredu ac anghenion hyfforddi**</u>

***"Pa asesiad / trafodaethau sydd wedi digwydd gyda CAFCASS am effaith ddisgwyliedig y Bil hwn ar eu gwaith a'u rhestr achosion, o ran achosion cyfraith gyhoeddus a phreifat?"***

Mae swyddogion wedi cynnal trafodaethau rheolaidd â Cafcass Cymru ynghylch effaith bosibl y Bil ar eu gwaith. Mae Cafcass Cymru eisoes yn ymateb i honiadau a wneir drwy wahanu cyplau mewn achosion cyfraith preifat. Mae hwn yn fater cymhleth ac mae gweithwyr proffesiynol eisoes yn gwneud penderfyniadau cytbwys i sicrhau bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel, a'u bod yn gallu cynnal perthynas â'r ddau riant pan fo gwneud hynny'n ddiogel ac er budd y plentyn. Nid yw'r Bil yn newid hynny.

Nid oes cynsail yn y Deyrnas Unedig (DU) i ddiddymu'r amddiffyniad, ac felly mae'n anodd darogan yr union effaith. Mae'n bosibl y bydd effaith ar lwythi achosion, ar y dechrau o leiaf, oherwydd y cynnydd o ran ymwybyddiaeth gyhoeddus a phroffesiynol o'r mater.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Cafcass Cymru i ystyried sut y gallwn fonitro effaith y Bil. Caiff cynrychiolydd o Cafcass Cymru ei wahodd i fod yn rhan o'r Grŵp Gweithredu sy'n cyfarfod ar 14 Mai. Bydd gwaith y Grŵp yn ein helpu i ddatblygu prosesau monitro ac adrodd ar gyfer gwerthuso effeithiau'r newid yn y gyfraith yn y dyfodol (os caiff y Bil ei basio).

Rwy'n cydnabod bod gwahanu plant oddi wrth eu rhieni yn effeithio ar nifer o blant a'u teuluoedd. Os yw'r sefyllfa'n cael ei thrin yn dda, mae'r effaith andwyol yn cael ei lleihau. Yn 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu £32,000 i sicrhau bod cwrs Cafcass Cymru, sef Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant, ar gael i fwy o rieni. Mae'r cwrs hwnnw'n helpu rhieni i ddeall y ffordd orau o gydweithio i gefnogi eu plant yn ystod y broses wahanu ac wedi hynny.

***"Pa asesiad / trafodaethau a gynhaliwyd gyda chynrychiolwyr y farnwriaeth (y farnwriaeth sifil, y farnwriaeth teulu a'r farnwriaeth droseddol) ynghylch yr anghenion hyfforddi a materion trawsffiniol sy'n codi o weithredu'r Bil hwn?"***

Roedd swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) ym mis Gorffennaf 2018, ac mae cyfarfod arall wedi'i drefnu ym mis Ebrill 2019.

Roedd cydweithwyr GLlTEM wedi rhoi sylw i bwysigrwydd feithrin cysylltiadau ar draws y system gyfiawnder gyfan. Roeddent wedi cynnig nifer o awgrymiadau i feithrin cysylltiadau a chodi ymwybyddiaeth a fydd yn cael eu hystyried drwy waith y Grŵp Gweithredu.

## Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru)

Mae'r Arglwydd Brif Ustus yn gyfrifol am drefnu hyfforddiant y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyfrifoldebau hynny'n cael eu harfer drwy'r Coleg Barnwrol. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad i ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus ac ymgysylltu â'i Swyddfa Farnwrol mewn perthynas â chynigion sy'n achosi newidiadau i'r gyfraith trosedd neu a allai gael effaith ar weithredu'r farnwriaeth a system y llysoedd a'r tribiwlysoedd. Fel sy'n digwydd yn achos pob Bil, mae Swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus wedi cael ei hysbysu am y cynigion hyn, ac maent yn ymwybodol bod y Bil wedi'i gyflwyno.

Mae cynrychiolydd o GLITEM wedi'i wahodd i fod yn rhan o'r Grŵp Gweithredu sy'n cyfarfod ar 14 Mai, a fydd yn ystyried yr anghenion hyfforddiant posibl a materion trawsffiniol.

***"A fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion ar:***

***Yr asesiadau a gynhaliwyd mewn perthynas ag argaeledd Cyfryngwyr Cofrestredig y mae paragraff 28 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y mae'n 'rhaid ystyried' eu defnyddio 'ar gyfer pob achos sy'n ymwneud â thyst sy'n blentyn.'"***

***"Y cyfeiriad ym mharagraff 29 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol at brinder o Gyfryngwyr Cofrestredig ar hyn o bryd, a nifer cyfyngedig iawn o Gyfryngwyr sy'n siarad Cymraeg, ac y 'gallai hyn greu oedi yn y broses'."***

Cafodd cynllun y Cyfryngwyr Cofrestredig ei adolygu gan y Farwnes Newlove, Comisiynydd Dioddefwyr. Mae'r adolygiad, 'A Voice for the Voiceless', a gafodd ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2018 yn nodi bod prinder o Gyfryngwyr Cofrestredig ar gael i i weithio mewn rhai ardaloedd daearyddol, fel Gogledd Cymru, a bod diffyg Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n siarad Cymraeg.

Cafodd tystiolaeth ysgrifenedig ar gynllun y Cyfryngwyr Cofrestredig ei darparu i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, a sefydlwyd gan Brif Weinidog Cymru ym mis Medi 2017 i adolygu gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru. Wrth roi tystiolaeth i'r Comisiwn roedd Cyfryngwr Cofrestredig wedi nodi, pan oedd yn cyflwyno ei dystiolaeth (Gorffennaf 2018), fod un Cyfryngwr Cofrestredig amser llawn a oedd yn siarad Cymraeg a dau Gyfryngwr Cofrestredig rhan-amser a oedd yn siarad Cymraeg yng Nghymru. Nododd fod y rhan fwyaf o gyfryngwyr a oedd yn gweithio yng Nghymru yn teithio o Loegr i asesu ymddygiad a chynnal cyfweliadau.

Roedd tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i darparu hefyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ym mis Awst 2018, gan y Farwnes Newlove, Comisiynydd Dioddefwyr. Roedd y Farwnes wedi adrodd y gall dioddefwyr ag anghenion cyfathrebu aros yn hir i gael Cyfryngwr Cofrestredig i'w helpu i roi tystiolaeth i'r heddlu ac i roi tystiolaeth mewn llys.

Cynhaliodd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ymarfer recriwtio rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2018, er mwyn recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig ychwanegol. Roedd 15 o ymgeiswyr yn llwyddiannus ac mae 12 ohonynt wedi cwblhau'r cwrs hyfforddi cydnabyddedig sydd wedi'i asesu, a byddant yn gallu dechrau ymarfer fel Cyfryngwyr Cofrestredig yng Nghymru cyn hir.

**Canllawiau a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol rheng flaen (para 4.14-4.15 o'r Memorandwm Esboniadol)**

***"A wnewch ddarparu rhestr o'r holl bolisïau a chanllawiau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru yr ydych wedi eu hasesu fel rhai y mae angen eu diweddaru os bydd y Bil yn cael ei basio, ynghyd â'r dyddiad y cawsant eu diweddaru ddiwethaf?"***

***"A wnewch ddarparu cost amcangyfrifedig diweddaru: holl ganllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol, Addysg (paragraff 61 o Atodiad 4 i'r Memorandwm Esboniadol), Iechyd, Rhianta a'r trydydd sector (paragraff 8.19 o'r Memorandwm Esboniadol)?"***

Mae diweddaru canllawiau Llywodraeth Cymru yn un o'r gweithgareddau arferol y mae swyddogion yn eu gwneud yn rheolaidd i sicrhau bod canllawiau o'r fath yn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth neu i weithdrefnau. Felly, byddem yn disgwyl i waith o'r fath gael ei dalu gan gostau rhedeg gweinyddol, ac na fydd unrhyw gostau ychwanegol neu ychydig iawn o gost mewn perthynas â gwaith o'r fath.

Bydd y Grŵp Gweithredu yn ystyried a fydd angen diweddaru'r canllawiau a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill. Gan nad ydym yn creu trosedd newydd, rydym yn disgwyl y bydd canllawiau sydd eisoes yn bodoli ar draws cyrff cyhoeddus yn cael eu diweddaru, yn hytrach na'u cynhyrchu o'r newydd. Mae'r sefydliadau sy'n gyfrifol am y canllawiau hyn, er enghraifft Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Coleg Plismona Cenedlaethol, yn diweddaru eu canllawiau'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith ac mewn arferion. Rydym yn rhagweld y byddant yn defnyddio adnoddau sydd eisoes yn bodoli i wneud hynny. Mewn nifer o achosion mae canllawiau ar weithredu amddiffyniad cosb resymol yn un agwedd yn unig o ganllawiau ehangach sy'n cynnwys amrediad eang o faterion yn ymwneud â materion diogelu neu gyfiawnder troseddol. Mae Safon Gyhuddo Gwasanaeth Erlyn y Goron, er enghraifft, yn darparu canllawiau i erlynwyr a swyddogion yr heddlu mewn perthynas â nifer o wahanol droseddau yn erbyn y person. Mae'r ffordd o weithredu mewn achosion o ymosodiad cyffredin lle gallai amddiffyniad cosb resymol gael ei ddefnyddio yn un rhan o'r canllawiau hynny yn unig.

***"Mae paragraff 8.47 o'r Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at ddiweddaru Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2002 yn rheolaidd. Ers diwygio'r gweithdrefnau hyn yn 2008, a wnewch chi nodi:***

- ***pa mor aml y maent wedi'u diweddaru:***
- ***pryd y cawsant eu diweddaru ddiwethaf;***
- ***faint o amser a gymerodd y gwaith diweddaru;***
- **cyfanswm costau'r gwaith hwn o ran ailddrafftio, dosbarthu a hyfforddi."**

Cafodd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 eu cynhyrchu a'u mabwysiadu gan yr holl Fyrddau Diogelu Plant yng Nghymru. Nid canllawiau Llywodraeth Cymru ydynt. Roedd Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (sydd bellach wedi'i chwalu) yn gyfrifol am gadw'r gweithdrefnau mor ddiweddar ag sy'n bosibl, ac roeddent wedi ychwanegu nifer o brotocolau at y gweithdrefnau craidd.

Ar hyn o bryd, mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a'r Polisi a'r Gweithdrefnau ar gyfer Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yn cael eu hadolygu gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ar ran yr holl Fyrddau Diogelu yng Nghymru. Caiff hynny ei wneud er mwyn rhoi ystyriaeth i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, a'i chanllawiau statudol ategol. Caiff y gwaith ei oruchwylio gan Fwrdd Prosiect sy'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Bro Morgannwg, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl Fyrddau Diogelu a'u partneriaid. Bwriedir i'r Gweithdrefnau Diogelu newydd ar gyfer Cymru, a fydd yn disodli Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed, gael eu lansio yn hydref 2019.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu ar y cyd â rhanddeiliaid i gynhyrchu nifer o ganllawiau ar arferion sy'n disodli protocolau cyfredol Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan er mwyn diogelu plant dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, mewn perthynas â masnachu mewn plant a phlant coll o gartrefi neu o leoliadau gofal.

Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu cynnal gan Gofal Cymdeithasol Cymru ar ffurf digidol a fydd yn sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio, eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r Bwrdd Prosiect yn ystyried trefniadau ffurfiol er mwyn cadw Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn gyfredol fel eu bod yn adlewyrchu newidiadau mewn arferion a chanllawiau. Cyfrifoldeb y Byrddau Diogelu fydd hynny.

Mae'r prosiect presennol yn adolygiad sylweddol, yn hytrach nag yn ddiweddariad, ac fe'i dechreuwyd yn 2017. Mae cyllid o £185,000 wedi cael ei roi dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gynhyrchu, digidoleiddio a chyfieithu Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Bydd angen cyllid ychwanegol i'w rhoi ar waith ac ar gyfer adnoddau hyfforddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r cyllid ar gyfer yr adolygiad, a bydd yn ceisio cael cytundeb ynghylch darparu cyllid ar gyfer lansio'r gweithdrefnau a'u rhoi ar waith. Mae hynny'n cynnwys gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru ar y cyd â'r Bwrdd Prosiect i gynhyrchu deunyddiau hyfforddi i'w defnyddio gan yr holl Fyrddau Diogelu yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd Prosiect wedi cael eu briffio ar y Bil. Fel rhan o'u gwaith, byddant yn ystyried y goblygiadau canlyniadol (os bydd y Bil yn cael ei basio) o ran diweddaru Gweithdrefnau Diogelu Cymru fel rhan o'r trefniadau cynaliadwy a wneir i gadw'r gweithdrefnau'n gyfredol, fel eu bod yn adlewyrchu newidiadau mewn arferion, cyfraith achosion a chanllawiau. Bydd aelodau Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu gwahodd i gyfrannu at waith y Grŵp Gweithredu.

***"A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am y costau sy'n gysylltiedig â llwyth gwaith y gwasanaethau cymdeithasol sy'n deillio o baragraff 50 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae hwn yn nodi y gall fod cynnydd o ran adrodd am ddigwyddiadau gan 'unigolion yn y gymuned a sefydliadau fel ysgolion' yn unol â'r 'ddyletswydd i roi gwybod' yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant."***

Nid oes unrhyw gynsail yn y DU ar gyfer dileu amddiffyniad cosb resymol, ac felly nid yw'n ofynnol i wasanaethau cyhoeddus gofnodi achosion o gosbi corfforol neu adrodd amdanynt. Yn sgil hynny, nid oes unrhyw ddata cyhoeddedig neu ddata sydd ar gael yn rhwydd i'w defnyddio fel llinell sylfaen, nac ychwaith brofiad gan wlad arall, er mwyn gallu bwrw amcan sy'n ddigon cadarn am y cynnydd posibl o ran atgyfeiriadau gwasanaethau cymdeithasol. O ganlyniad i hynny, mae'n anodd darogan yn gywir y costau sy'n gysylltiedig â chynnydd posibl mewn llwyth gwaith ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol. Erbyn hyn, os yw'r ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno, rhagwelir na fydd angen ymateb i gyfran sylweddol o achosion o gosbi corfforol o dan y broses diogelu plant.

Rydym yn cydweithio â nifer fach o awdurdodau lleol i geisio pennu llinell sylfaen sy'n ddigon cywir; fodd bynnag, mae nifer o faterion yn gysylltiedig â hynny. Cafodd y rheini eu hamlinellu yn fy llythyr at Lynne Neagle AC, y Cadeirydd, ar 5 Ebrill. Un o'r rhesymau dros geisio pennu llinell sylfaen a rhoi systemau ar waith i gofnodi achosion yn well yw ein galluogi i ystyried ein gofynion o ran adnoddau a deall y goblygiadau o ran costau.

Bydd gwaith yn parhau, drwy'r Grŵp Gweithredu, ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol, i sefydlu system cofnodi a monitro er mwyn datblygu system ddibynadwy ar gyfer casglu data perthnasol am gyfnod cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Bydd hynny'n ein galluogi i bennu llinellau sylfaen. Hefyd, yn dilyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, bydd y system honno'n galluogi inni fonitro effaith y Bil.

***"Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron ynghylch diwygio'r Safon Gyhuddo am Droseddau yn erbyn y Person i sicrhau nad yw Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yn gymwys yng Nghymru yn unol â pharagraff 3.23 o'r Memorandwm Esboniadol? Faint o amser fydd yr adolygiad hwn yn ei gymryd, faint y disgwylir iddo ei gostio a phwy fydd yn gyfrifol am y gost hon?"***

Roedd Huw Irranca-Davies, y cyn-Weinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, wedi cyfarfod â Phrif Erlynydd y Goron ar gyfer Cymru a chydweithwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron ar 9 Hydref 2018, a chyfarfues i â nhw ar 7 Mawrth 2019. Mae fy swyddogion hefyd wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron. Cafwyd trafodaethau ar amrediad o faterion, gan gynnwys diwygio'r '*Offences Against the Person Charging Standard*' (y Safon Gyhuddo).

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn sefydliad sydd heb ei ddatganoli ac sydd ag adran bolisïau sy'n diweddaru dogfennau canllaw fel rhan o'r gwaith y maent yn cael ei gyflogi i'w wneud. Rhwng Gorffennaf ac Awst 2017, ymgynghorodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar ddiwygiadau i'r Safon Gyhuddo. Gwnaed hynny fel rhan o'u gwaith diweddaru rheolaidd, i adlewyrchu nifer o ddatblygiadau cyfreithiol a chymdeithasol ac i egluro agweddau ar y Safon Gyhuddo. Roedd y diwygiadau'n cynnwys egluro'r ffordd o weithio sy'n ofynnol os oes angen ystyried amddiffyniad cosb resymol. Bydd y newidiadau yn y ffordd y caiff yr amddiffyniad ei ddefnyddio yn neddfwriaeth Cymru yn cael eu hadlewyrchu drwy ddiwygiadau i Safon Gyhuddo Gwasanaeth Erlyn y Goron yn unol ag arferion cyffredin Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Gwasanaeth Erlyn y Goron sy'n talu'r costau a ysgwyddir mewn perthynas ag adolygu a diweddaru eu canllawiau cyfreithiol. Yn dilyn trafodaethau, deëllir y bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn talu costau a ysgwyddir mewn perthynas ag adolygu'r Safon Gyhuddo i adlewyrchu deddfwriaeth sy'n sicrhau nad yw Adran 58 o Ddeddf Plant 2004 yn berthnasol yng Nghymru, yn unol â'u harfer arferol.

***"Pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda'r Heddlu ynghylch y canllawiau diwygiedig y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 15 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol? Faint o amser fydd yr adolygiad hwn yn ei gymryd, faint y disgwylir iddo gostio a phwy fydd yn gyfrifol am y gost hon?"***

***"Pa drafodaethau sydd wedi'u cynnal â'r Heddlu ynghylch y gwahaniaeth yn y gofynion cofnodi rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer y gronfa ddata genedlaethol Gorfodi'r Gyfraith y cyfeiriwyd ati ym mharagraffau 14 a 15 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol? Sut y cafodd dichonoldeb y gwaith hwn ei asesu, faint y disgwylir iddo ei gostio a phwy fydd yn gyfrifol am y gost hon?"***

Cyfarfu Huw Irranca-Davies, y cyn-Weinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, â'r pedwar Prif Gwnstabl (neu eu Dirprwyon) o'r pedwar heddlu yng Nghymru ar 3 Awst 2018, a chyfarfûm â nhw ar 24 Ionawr 2019. Mae fy swyddogion hefyd wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â chynrychiolwyr o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Cafwyd trafodaethau ar amrediad o faterion, gan gynnwys canllawiau a'r gofynion o ran cofnodi achosion.

Fel yr eglurwyd ym mharagraff 14 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol, bydd y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Orfodi'r Gyfraith yn cael ei sefydlu i ddisodli Cronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu a Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu sydd eisoes yn bodoli. Ar hyn o bryd, mae gwybodaeth am euogfarnau'n cael ei chadw ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu, ac mae cofnodion am wybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau (e.e. cudd-wybodaeth, datrysiadau anstatudol y tu allan i'r llys fel datrysiadau cymunedol) yn cael eu cadw ar Gronfa Genedlaethol yr Heddlu.

Yn ein trafodaethau â'r heddlu, rydym wedi sôn bod angen ystyried sut y bydd y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Orfodi'r Gyfraith yn gwahaniaethu rhwng y ffaith y gallai rhai ymosodiadau cyffredin ar blant fod yn wybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn yn Lloegr ond yn wybodaeth yn ymwneud ag euogfarn yng Nghymru. Felly, mae hynny'n fater i'w ystyried ymhellach.

Ar hyn o bryd, ein barn yw na fyddai'n anodd ymdrin â'r gwahaniaeth o fewn cronfa ddata sy'n cynnwys cofnodion am euogfarnau a gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarnau. Nid yw dileu amddiffyniad cosb resymol yng Nghymru yn creu trosedd newydd; mae trosedd ymosod cyffredin eisoes yn bodoli yn y gyfraith gyffredin ar draws Cymru a Lloegr, ac felly dylai fod yn bosibl adrodd am achosion o ymosod cyffredin ar blant, naill ai fel gwybodaeth am euogfarn (e.e. os bydd rhybuddiad wedi'i dderbyn gan y cyflawnwr) neu fel gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn.

Bydd cael canllawiau clir am yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn Gronfa Ddata Genedlaethol ar Orfodi'r Gyfraith yn hanfodol, fel bod eglurder ynghylch a yw achosion o 'gosb resymol' yn cael eu cofnodi fel gwybodaeth am euogfarn neu wybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn. Ar ôl i'r wybodaeth gael ei chofnodi, dylai fod yn glir i unedau datgelu pa wybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn y dylent ei rhyddhau at ddibenion gwiriad manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rydym o'r farn y byddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanllawiau o'r fath yn isel iawn, ac yn rhan o ganllawiau llawer ehangach a fyddai eu hangen mewn perthynas â rhoi gwybodaeth yn y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Orfodi'r Gyfraith. Fodd bynnag, mae'r materion hyn yn ymwneud â phroses weithredu fanwl y byddwn yn ei thrafod ymhellach â'r heddlu ac eraill yn ôl yr angen.

***"A wnewch roi manylion unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â mynd ar gwrs fel rhan o rybuddiad amodol y cyfeirir ato ym mharagraff 21 o Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol? A fydd angen datblygu cwrs ar gyfer y math hwn o drosedd? Os bydd, pwy y disgwylir a fydd yn datblygu ac yn ariannu'r cwrs hwn?"***

***"A fyddech cystal â rhoi manylion ar y cynnydd o ran datrysiadau cymunedol y cyfeirir atynt ym mharagraff 24 o Atodiad A y Memorandwm Esboniadol a'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhain?"***

Cyfarfu Huw Irranca-Davies, y cyn-Weinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu ar 29 Hydref 2018, a chyfarfûm â nhw ar 24 Ionawr 2019. Mae fy swyddogion hefyd wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Gwasanaeth Erlyn y Goron a chynrychiolwyr o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Cafwyd trafodaethau ar amrediad o faterion, gan gynnwys datrysiadau y tu allan i'r llys.

Caiff rhybuddiadau amodol eu rhoi gan yr heddlu yn unol â chanllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae penderfyniadau'n ymwneud â'r defnydd o ddatrysiadau y tu allan i'r llys, a'r amodau mwyaf priodol i roi ar rybuddiad, yn faterion nad oes gennym gyfrifoldeb datganoledig drostynt. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Heddlu, a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i ystyried ymyriadau addas.

Mae'r ffordd y caiff cyrsiau eu hariannu yn amrywio rhwng yr heddluoedd. Fel arfer maent yn cael eu talu drwy gyllid gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu; gan y troseddwr ei hun; neu maent eisoes ar gael ac yn cael eu hariannu yn y gymuned. Mae'n bosibl y gellid defnyddio darpariaeth sydd eisoes yn bodoli. Bydd y Grŵp Gweithredu, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau allweddol, yn ystyried defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys, gan gynnwys datrysiadau cymunedol a rhybuddiadau amodol. Bydd gwaith cynllunio'r broses weithredu hefyd yn ystyried y modelau mwyaf priodol ar gyfer cyflawni'r gwaith a hefyd canllawiau, trefniadau cyllid ac adnoddau.

**<u>Ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chostau (paragraffau 3.63-3.66 o’r Memorandwm Esboniadol)</u>.**

***“A wnewch roi eglurhad o ran y gynulleidfa darged ar gyfer yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth?”***

Bydd yr ymgyrch cyfathrebu’n targedu holl boblogaeth Cymru, gan fod y rhan fwyaf o bobl yn dod i gysylltiad â phlant.

Bydd y gynulleidfa’n cael ei rhannu hefyd, a chaiff negeseuon eu teilwra ar gyfer nifer o wahanol grwpiau. Byddwn yn cynnal gwaith cwmpasu dros y misoedd nesaf i ystyried pa negeseuon sy’n taro deuddeg a’r ffyrdd fwyaf effeithiol o gyfathrebu â gwahanol grwpiau.

Bydd y cynllun cyfathrebu’n cynnwys trafodaethau helaeth â rhanddeiliaid sy’n allweddol i’r broses o weithredu’r ddeddfwriaeth, er enghraifft yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a gweithwyr proffesiynol a sefydliadau rheng flaen sy’n gweithio gyda phlant a’u teuluoedd, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, a gweithwyr proffesiynol yn y meysydd iechyd ac addysg.

**“A fyddech cystal â rhoi manylion y dulliau a’r costau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ymysg y rheini sy’n ymweld â Chymru, sut y caiff hyn ei gyflawni a’r costau sy’n gysylltiedig â hyn am dair blynedd (paragraff 9.2 o’r Memorandwm Esboniadol)?”**

Caiff gwaith ei gynnal wrth i’r Bil fynd ar ei hynt drwy’r Cynulliad er mwyn pennu’r dulliau mwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth ymhlith ymwelwyr â Chymru. Rydym yn cydnabod y dylai dinasyddion Cymru ac ymwelwyr â’n gwlad ddod o hyd i’r gyfraith, a’i deall hi, yn weddol rhwydd ymlaen llaw, fel y gallant elwa ar y manteision a pharchu’r goblygiadau y bydd y gyfraith newydd yn eu gosod arnynt.

***“A fyddech cystal â rhoi manylion yr asesiad a wnaed ynghylch a ddylid cynnwys yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth hon ar wyneb y Bil?”***

Rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus a manwl i’r angen i godi ymwybyddiaeth o’r newid yn y gyfraith cyn cyflwyno’r ddeddfwriaeth ac ar ôl iddi gael ei chyflwyno, os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

Fe wnaethom gomisiynu adroddiad gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru (a elwir bellach yn Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru) ar ddeddfu i wahardd cosbi plant yn gorfforol ( <u>https://www.wcpp.org.uk/publication/legislating-to-prohibit-parental-physical-punishment-of-children/</u> ), a oedd yn ystyried profiad gwledydd eraill sydd wedi deddfu yn y maes hwn.

Fel sydd wedi'i nodi ym mharagraffau 8.24 i 8.25 o'r Memorandwm Esboniadol, roedd yr adroddiad yn dangos y gallai newid yn y gyfraith, sydd hefyd yn cynnwys ymgyrch codi ymwybyddiaeth a chymorth i rieni, arwain at lai o achosion o gosbi corfforol a newid mewn agweddau. Canfu hefyd os nad yw ymgyrch cyhoeddusrwydd yn cael ei chynnal ar y cyd â newid yn y gyfraith, neu os nad yw ymgyrch yn parhau am gyfnod digonol, fod ymwybyddiaeth o'r gyfraith newydd yn llai eang.

Felly, rydym wedi ymrwymo i gynnal ymgyrch codi ymwybddiaeth am gyfnod digonol, ac wedi cadarnhau'r ymrwymiad hwnnw ym Mhennod 8 o'r Memorandwm Esboniadol.

Nid oes angen rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth o ystyried yr ymrwymiad cadarn hwn a'r ffaith fod pwerau digonol eisoes gan Weinidogion Cymru i allu codi ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth.

## Grŵp Gweithredu (paragraff 8.9 o'r Memorandwm Esboniadol)

***"A fyddech cystal â rhoi manylion am rôl, aelodaeth a chylch gorchwyl y Grŵp Gweithredu a pha mor aml y mae wedi cwrdd hyd yma, ac amlinelliad o'r rhesymau pam na chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol?"***

Cylch gwaith y Grŵp Gweithredu fydd ystyried a gwneud argymhellion am sut i weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y modd mwyaf ymarferol ac effeithiol. Rwyf wedi gwahodd amrywiaeth eang o randdeiliaid i gael eu cynrychioli, gan gynnwys yr heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gwasanaethau cymdeithasol, y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y sectorau iechyd ac addysg. Trefnwyd bod y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar 14 Mai 2019.

Yn sgil trafodaethau blaenorol â rhanddeiliaid, rydym yn rhagweld y gallai'r ffrydiau gwaith gynnwys y canlynol: - cyngor, canllawiau, cymorth a gwybodaeth i rieni; casglu data, monitro a gwerthuso; prosesau gweithredol, gweithdrefnau , cyfarwyddyd a rhyngweithio rhwng asiantaethau; a datrysiadau y tu allan i'r llys, gan gynnwys cynlluniau eraill. Bydd yr ystod lawn o waith i'w gynnwys yn cael ei ystyried gan y Grŵp Gweithredu.

## Arall

***"O ran paragraff 3.42 o'r Memorandwm Esboniadol, a ydych yn sicr bod pob cyfeiriad academaidd arall wedi'i gynrychioli'n gywir?"***

Nod cyffredinol y Bil yw helpu i ddiogelu hawliau plant.

Y bwriad oedd ein bod yn darparu crynodeb cytbwys o'r dystiolaeth yn y ddogfen ymgynghori a'r Memorandwm Esboniadol, yn hytrach na darparu adolygiad academaidd cynhwysfawr. Mae casgliadau ein dogfen ymgynghori yn eithaf cyson â'r canfyddiadau sydd wedi'u nodi yn adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru '*Parental Physical Punishment: Child Outcomes and Attitudes*'. Roedd adroddiad Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn adolygiad annibynnol o'r llenyddiaeth sydd ar gael yr oedd eu canfyddiadau wedi'u hadolygu gan gyfoedion yn y maes. Mae swyddogion wedi ceisio darllen a gwirio pob cyfeiriad academaidd y cyfeirir atynt yn y Memorandwm Esboniadol a'r ddogfen ymgynghori. Hyd y gwyddom, mae'r cyfeiriadau academaidd wedi'u cynrychioli'n gywir.

***"A wnewch roi rhagor o eglurder ynghylch data a gyhoeddwyd, y cyfeirir ato ym mharagraff 8.20 o'r Memorandwm Esboniadol yn Seland Newydd o ran achosion a gofnodwyd gan y gwasanaeth heddlu cyn y daeth y newid i'r gyfraith i rym, ac ar ôl hynny?"***

Daeth deddfwriaeth Seland Newydd, sef Deddf Diwygio Troseddau (Adran 59 a Amnewidiwyd) 2007 [*Crimes (Substituted Section 59) Amendment Act 2007*] i rym ar 22 Mehefin 2007. Diben y ddeddfwriaeth oedd atal rhieni rhag defnyddio grym i gosbi plant.

Mae'r heddlu yn Seland Newydd wedi cyhoeddi nifer o adolygiadau ar effaith y ddeddfwriaeth yn Seland Newydd. Mae'r adolygiadau ar gael yn: https://www.police.govt.nz/about-us/publication/crimes-substituted-section-59-amendment-act-2007

Mae'r adolygiadau wedi'u seilio ar ddata a gasglwyd gan heddlu Seland Newydd, gyda'r bwriad o ddarparu gwybodaeth am nifer y galwadau i'r heddlu am ymosodiadau ar blant a oedd yn cynnwys 'smacio' a 'mân achosion o ddisgyblu corfforol', yn hytrach nag ymosodiadau eraill ar blant.

Yn ystod cyfnod o dri mis cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, a phum mlynedd ar ôl ei chyflwyno, roedd heddlu Seland Newydd wedi ymchwilio i droseddau a gofnodwyd o dan y saith cod canlynol:

- Ymosod ar Blentyn (â Llaw)
- Ymosod ar Blentyn (Arf Arall)
- Ymosod Cyffredin (Domestig) (â Llaw)
- Ymosod Cyffredin (â Llaw)
- Ymosodiad Arall ar Blentyn (o dan 14 oed)
- Ymosod Cyffredin (Domestig) (Arf Arall)
- Ymosod Cyffredin Arall #1649

Cafodd y troseddau o dan y saith cod hyn eu hymchwilio at ddibenion yr adolygiadau, oherwydd ystyriwyd mai'r troseddau hyn oedd y mathau hynny a fyddai'n fwy tebygol o gynnwys achosion o 'smacio'. Mae adroddiadau'r adolygiadau'n dangos nad cyfanswm yr achosion o ymosod ar blant yr oedd heddlu Seland Newydd wedi ymdrin â nhw yn ystod unrhyw rai o gyfnodau'r adolygiadau oedd yr achosion o ymosodiadau ar blant a nodwyd o dan y codau hyn - gan nad

oedd achosion o ymosod nad ystyriwyd eu bod yn debygol o gynnwys achosion o ‘smacio’ wedi’u harchwilio.

Ar sail yr ymchwiliad hwnnw, cafodd yr achosion a gofnodwyd o dan bob un o’r troseddau hynny eu rhoi o dan un o’r categorïau canlynol: 'smacio', 'mân achosion o ddisgyblu corfforol’ ac ‘ymosodiad arall ar blentyn’.

Roedd y sail resymegol a ddefnyddiwyd i ddyrannu pob achos i un o’r categorïau hyn yn cynnwys ystyriaeth o’r canlynol:

- y weithred gorfforol wirioneddol a ddefnyddiwyd yn yr ymosodiad ar y plentyn;
- y cyd-destun a’r amgylchiadau.

Rydym wedi crynhoi’r data a gasglwyd ar gyfer pob un o’r 12 cyfnod adolygu yn y tabl isod. Y cyfnod adolygu cyntaf, sef 17/03/2007 – 22/06/2007, yw’r cyfnod o dri mis cyn i Ddeddf Seland Newydd gael ei chyflwyno:

New Zealand review of cases since enactment of Section 59

Law passed

*Numbers of cases*

| | Baseline Period | Review Period 1 | Review Period 2 | Review Period 3 | Review Period 4 | Review Period 5 | Review Period 6 | Review Period 7 | Review Period 8 | Review Period 9 | Review Period 10 | Review Period 11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 17/03/2007 - 22/06/2007 | 23/06/2007 - 28/09/2007 | 29/09/2007 - 04/04/2008 | 05/04/2008 - 03/10/2008 | 04/10/2008 - 04/04/2009 | 05/04/2009 - 23/06/2009 | 24/06/2009 - 22/12/2009 | 23/12/2009 - 22/06/2010 | 23/06/2010 - 21/12/2010 | 22/12/2010 - 21/06/2011 | 22/06/2011 - 21/12/2011 | 22/12/2011 - 21/06/2012 |
| Smacking | 3 | 3 | 13 | 9 | 8 | 3 | 11 | 25 | 18 | 18 | 23 | 12 |
| Minor Acts of Physical Discipline | 10 | 12 | 69 | 49 | 39 | 10 | 39 | 38 | 45 | 58 | 45 | 31 |
| Other Child Assaults/No offence disclosed | 82 | 96 | 206 | 200 | 232 | 114 | 318 | 353 | 381 | 380 | 432 | 312 |
| Total | 95 | 111 | 288 | 258 | 279 | 127 | 368 | 416 | 444 | 456 | 500 | 355 |

*Source: New Zealand Police*

*Note: Review periods vary in length and so are not directly comparable*

Fel y nodwyd ym mharagraff 8.20 o’r Memorandwm Esboniadol, mae yna wahaniaethau rhwng y sefyllfaoedd yn Seland Newydd a Chymru y mae’n rhaid inni eu cofio wrth gymharu’r ddwy wlad. Yn amodol ar y cafeatau sydd wedi’u rhestru ym mharagraff 8.34 ac atodiad 6 o’r Memorandwm Esboniadol, rydym wedi defnyddio data Seland Newydd fel procsi i amcangyfrif y cynnydd posibl yn nifer yr achosion o adrodd i’r heddlu ac erlyniadau yn y llysoedd.

Yn achos yr heddlu, nodwyd data sylfaenol sy’n benodol i Gymru drwy archwiliad ôl-weithredol a gynhaliwyd gan y pedwar heddlu yng Nghymru (gweler y tabl ar dudalen 50 o’r Memorandwm Esboniadol). Cafodd maint posibl y cynnydd ei gyfrifo drwy gyfeirio at ddata Seland Newydd, ar sail y ffaith y byddai’r achosion a oedd wedi’u categoreiddio yn Seland Newydd fel rhai a oedd yn cynnwys ‘smacio’ neu ‘fân achosion o ddisgyblu corfforol’ yn cyfateb yn fras i droseddau ar lefel ‘cosb resymol’ yng Nghymru. Mae’r tabl ar dudalen 51 o’r Memorandwm Esboniadol yn egluro bod achosion o’r fath, ar gyfartaledd, wedi digwydd ddwywaith mor aml yn ystod y pum mlynedd yn dilyn cyflwyno’r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd. Defnyddiwyd cynnydd cyfartalog gan nad oedd y cyfnodau adrodd yn Seland Newydd yn gyson, ac felly byddai ceisio rhagweld y cynnydd fesul blwyddyn yn gymhleth.

Yn achos y llysoedd, defnyddiwyd data Seland Newydd fel procsi i gael amcangyfrif o’r niferoedd posibl o achosion a erlynir yng Nghymru yn ystod y pum mlynedd yn dilyn cyflwyno’r ddeddfwriaeth – ac eto, rhaid cadw mewn cof y cafeatau sy’n ymwneud â’r gwahaniaethau rhwng y sefyllfaoedd yng Nghymru ac yn Seland Newydd. Fel yr eglurwyd ym mharagraffau 8.40 ac 8.41 o’r Memorandwm Esboniadol, mae’r niferoedd a amcangyfrifwyd wedi’u cyfrifo ar sail y ffaith bod nifer y plant 0-14 oed yng Nghymru yn cyfateb i oddeutu 60% o nifer y plant 0-14 oed yn Seland Newydd (mae’r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd yn ymwneud â phlant 0-14 oed).

Yn ystod y cyfnod adolygu o bum blynedd, cafwyd 8 erlyniad am ‘smacio’ a 55 erlyniad am ‘fân achosion o ddisgyblu corfforol’, ac felly cyfanswm o 63 erlyniad. Felly, rydym wedi amcangyfrif 37 neu 38 o erlyniadau dros gyfnod o bum mlynedd yng Nghymru. Caiff hynny ei egluro ar dudalennau 8-9 o’r Asesiad o’r Effaith ar Gyfiawnder, lle nodir hefyd y byddai nifer yr achosion o erlyniadau yn debygol o ddechrau gostwng ar ôl pum mlynedd o ganlyniad i’r ymgyrch codi ymwybyddiaeth y bwriedir ei gynnal gan Lywodraeth Cymru.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**David Ward**
**CEO Tirion Group Ltd**
**Written Evidence to Welsh Government Finance Committee: 23rd April, 2019**

**Developing Effective Funding Models for Mixed Tenure Housing**

## 1.0 Scope of Evidence

This evidence has been restricted to consideration of Welsh Government's role in helping non-regulated "not for profit" housing providers to access Institutional Finance to support mixed tenure housing provision as part of a more comprehensive strategy to stimulate housing provision. The proposed interventions would not just be applicable to such organisations but could also facilitate increased delivery by the Registered Social Landlord (RSL) sector.

The evidence does not cover the following aspects although I would be happy to discuss these matters as part of the oral session:

- The Registered Social Landlord sector and the role of equitization in facilitating increased scale of delivery; and
- The role of loan and grant finance to support the SME housebuilder sector in provision of open market homes for sale.

## 2.0 Institutional finance "the opportunity"

2.1 Institutional investors are seeking long-term, index-linked cash flows to match their long-term annuity obligations. Housing currently represents just 1% of UK institutional fund investment compared to 47% in the Netherlands, 15% in France and 13% in Germany. Pension funds are now actively seeking long-term investment alternatives to gilts to improve their returns. RSLs and not-for-profit providers like Tirion are attempting to secure long-term finance no longer readily accessible from the traditional banking sector to support delivery of mixed-tenure housing. Tirion believes that this type of facility, which matches income streams, provides a natural hedge and should form part of a portfolio of loans.

2.2 Typically, institutional investors are offering 20-50 year debt, at highly attractive investment yields, which can significantly reduce the cost of development finance reducing or negating the need for public sector subsidy. In some cases, investors have launched their own vehicles and are looking to acquire housing assets to hold on a long-term basis.

2.3 Institutional investors offer particularly attractive yields for affordable housing due to historically low void rates and this reduces the viability gap between affordable and market housing.

2.4 The potential scale of investment should not be under-estimated. Tirion Group alone is targeting institutional investment of £350 million in Wales and typically individual funds have allocated investment of at least £1bn for housing assets in the UK. L&G are believed to have allocated up to £10bn for investment in affordable housing in the future.

## 3.0 Barriers to Securing Investment

3.1 Whilst the opportunity to tap into Institutional appetite for residential assets is enormous, it remains a fact that in most cases the funds wish to invest in completed / existing assets. Forward funding for pre-construction and construction activities remains very rare.

3.2 This dis-connect between the development process and long-term investment is further exacerbated by the required lot sizes, at which, most investors wish to transact. In many cases the institutions require investment lot values of between £30 and £50m. This means that additional “warehouse” finance is required so that portfolios can be built to reach this critical mass. Tirion is fortunate in that it’s investor is prepared to transact on our units at a much lower value of circa £15m and there are signs that the wider Institutional market is moving in this direction in recognition of the specific characteristics of the residential sector i.e. portfolios made up of small individual units each with their own value.

3.3 The consequence of this dis-connect is that there is a shortage of assets in which institutions can invest. Even where units are being constructed they are not available in sufficient lot value size. This is partly due to much more stringent regulation of the traditional banking sector following the 2008 global financial crisis and consequently greatly reduced appetite to provide development finance. This is further exacerbated by the current practise of valuing assets according to an RICS red book procedure which results in a significantly lower value than that which institutions are prepared to lend against. This further constrains the level of funding Banks can offer for the pre-construction, construction and warehouse phases of large residential projects.

3.4 This has created a vicious circle of dis-connected flows of finance, i.e. the link between development finance, warehouse finance and the long-term debt being offered by the Institutions, that Welsh Government financial interventions should seek to address.

## 4.0 The Role of WG

4.1 Fiscal restraint will continue to restrict the availability of Social Housing Grant in the medium to long term. However, it is also true that during this period the shortage of all types of housing tenure will grow. It seems sensible that SHG going forward should target the Social Rented Sector and therefore those most in need. It is also clear that Social Rented housing is unlikely to be viable without grant, or without cross-subsidy, in most housing markets in Wales.

4.2 The Planning system seeks to deliver community benefits including social rented housing via the s106 and CIL systems. Values in most parts of Wales do not support sufficient investment in community facilities and the social rented sector. In these circumstances WG interventions should focus on delivering a mixed tenure approach, with the possibility of cross funding (at least in part) the social rented sector on all large-scale projects in Wales. This requires mechanisms that remove elements of financial risk associated with pre-construction, construction and warehouse phases of large developments. In the majority of cases this could be achieved directly through loan finance and in some cases this could be coupled with grant to deal with abnormally high site preparation costs.

4.3 The most effective method in terms of levering private investment in mixed-tenure housing is for WG to take subordinate positions in providing a proportion of debt during the pre-construction, construction and warehouse phases of projects.

## 5.0 Developing an Effective Model Using Existing Finance

5.1 The effective deployment of Financial Transaction Revenue would appear to offer the best opportunity to support mixed-tenure housing development in the short to medium term. It also offers the best opportunity to minimise financial risk to the public sector. Examples of how FTR loan finance could be deployed include:

- Pre-construction – 100% loans for design, planning and statutory consents – loans would be repayable at the point that construction finance is secured;
- Site preparation works – 100% for site remediation and preparation – generally repayable at the point that construction finance is secured. Where sites are in public ownership, the loan would not be repayable if, for whatever reason the project does not proceed. This is on the basis that the works would have added the equivalent value to those sites that remain in public ownership;
- Construction phase – Up to 30% loan against development costs – loan to be subordinated to senior lender – loan to be repaid at the point warehouse finance is secured; and
- Warehouse phase – Up to 30% loan against warehouse finance costs – loan to be subordinated to senior lender - loan either to be repaid at the end of the construction phase on drawdown of institutional debt or long-term quasi-equity position taken against the loan to provide long-term revenue stream or dividends.

5.2 It should be possible to provide a rolling loan facility for housing providers to reduce the peak debt of any single organisation at the relevant stages of the development process.

5.3 Using the principles set out above it will also be possible to integrate the de-carbonisation of new development into loan programmes. The investment profile for energy investors closely matches that of institutional investment in housing being long-dated with low yields. Tirion are at the forefront of proving the commercialisation of this approach with our partners Pobl and Sero Energy with Innovative Housing Programme grant support our development at Parc Eirin in Tonyrefail.

## 6.0 Quantifying the Risk

6.1 Adopting a strategy that is predicated either on 100% debt or sub-ordinated debt structure comes with financial risk. However, containing risk should be relatively straightforward particularly if the debt provider (WG or other public sector organisation can adopt a long-term position on the value of assets if necessary). A broad-brush assessment of the risk context is as follows:

- Pre-construction – 100% loan – inherently the greatest risk but with the lowest financial impact – risk mitigated where the site has an Local Development Plan allocation or even better an Outline Planning Consent.

- Site preparation works – 100% loan – where the site is in public ownership it can be argued there is no risk as the works are directly adding to the value of the site. Where the site is in private ownership a legal charge can be placed on the land. The risk here is if the end value of the site remains lower than the loan offered.
- Construction phase – Up to 30% junior loan against development costs – this carries the greatest risk in the development phase due to potential for cost overruns and depreciation of values during the construction phase but still significantly lower than current average grant levels.
- Warehouse phase – Up to 30% junior loan against warehouse finance costs – relatively low risk as debt against completed units.

**7.0 The Future – WG Equity Investment?**

7.1 Deploying the above loan mechanisms will result in significant increases in the delivery of mixed-tenure housing on large regeneration sites. We can envisage a situation where selling land to housebuilders as part of the development strategy for large sites would cross-subsidise the provision of homes for affordable homes. However, it is unlikely to negate the need for Social Housing Grant to deliver large numbers of homes for Social Rent across Wales.

7.2 In these circumstances Welsh Government should consider its role in providing equity for both not-for- profit housing providers (e.g. Tirion) and RSLs. This could operate on the following basis:

- SHG is replaced with time-limited WG equity investment, to fund new homes for social rent via a financial transaction;
- The WG equity share would be according to need i.e. the discount required to achieve social rent levels;
- WG would forgo the return on its equity share, with the housing provider charging a maximum market rent on its share, giving a genuinely affordable submarket rent level overall; and
- The housing provider would repay WG its equity stake within a 20-year period through the re-financing of the debt against the growth in value of the assets. Alternatively, at the point the rental cashflows are providing enough surplus WG could take a slice of long-term rental income.

7.3 The risk associated with this structure is that property and rental values fall over the 20-year deferred period. This is highly unlikely.

**8.0 Conclusion**

8.1 There is a huge opportunity to tap into Institutional Investors' appetite for residential assets. Existing funding instruments can be better utilised to help housing providers access this investment through existing vehicles, such as Tirion Homes and RSLs, and new partnerships formed with local authorities and other public sector landowners playing a major role.

8.2 The proposal for a new Housing Land Authority could also play a pivotal role in managing the supply of development land.

8.3 There is an excellent opportunity to integrate the de-carbonisation of new development into the loan programmes, providing household cost benefits to tenants, improving the viability of projects and reducing the carbon impact of new housing.

8.4 The key conclusion is that increasing capital investment in housing, and particularly affordable housing, is not about seeking new sources of finance but rather creating mechanisms that allow existing forms of finance to join up through the public sector taking an element of acceptable risk in the development process.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

**National Assembly for Wales**
Assembly Commission

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

3 Mai 2019

Annwyl Llyr

## Diweddariad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol a Llacio Cap y Sefydliad

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am Gynllun Ymadael Gwirfoddol y Comisiwn a'r cap ar nifer staff y sefydliad.

**Cynllun Ymadael Gwirfoddol**

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth (Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019-20) ar 3 Hydref 2018, gwnaethom hysbysu'r Pwyllgor nad oedd y Comisiwn eto wedi gwneud penderfyniad i symud ymlaen gyda Chynllun Ymadael Gwirfoddol. Yn dilyn hynny, gwnaethom ysgrifennu atoch ar 20 Tachwedd 2018 i gadarnhau bod y Comisiwn, yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd, wedi cytuno i gynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol i'r holl staff er mwyn sicrhau bod y Comisiwn yn gallu parhau i ddarparu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r capasiti angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad drwy'r heriau penodol yn sgil Brexit a Newid Cyfansoddiadol.

Yn wahanol i lawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus, nid yw Comisiwn y Cynulliad yn cynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn rheolaidd. Y tro diwethaf i gynllun o'r fath fod ar gael oedd yn ystod 2015/16.  Roedd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol diweddaraf yn agored i geisiadau rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Ionawr 2019.

Nodau'r Cynllun, wedi deillio'n uniongyrchol o'r adolygiad capasiti, oedd:

- Caniatáu i'r sefydliad ymateb i newidiadau yn ei ofynion sgiliau;
- Gwella effeithlonrwydd y gweithlu;
- hwyluso newid sefydliadol;

- sicrhau arbedion tymor hir lle y bo modd a/neu osgoi costau ychwanegol wrth fodloni prinder sgiliau.

At ei gilydd, cafwyd 43 o geisiadau ac ystyriwyd y rhain yn erbyn meini prawf y cynllun gan Banel a oedd yn cynnwys Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn ac roedd aelod o Ochr yr Undebau Llafur a'r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd yn arsylwi. Roedd asesiad y Panel o bob cais yn seiliedig ar y wybodaeth yn y cais, wedi'i gefnogi a'i sgorio gan y rheolwr llinell perthnasol ac yn ddarostyngedig i waith cymedroli gan banel cymedroli annibynnol. Derbyniwyd 22 o geisiadau. Ystyriwyd 4 cais arall ar apêl a chawsant eu cymeradwyo ar ôl ystyried gwybodaeth ychwanegol nas rhoddwyd yn y cais. Wedi hynny, gwrthododd dau ymgeisydd gynnig y Cynllun Ymadael Gwirfoddol. Felly, bydd 24 o staff yn ymadael erbyn mis Medi 2019.

Yn dilyn hynny, cynyddwyd y gyllideb gychwynnol o £800,000 yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol i £950,000 ac yna ei chynyddu ymhellach i £1.016 miliwn. Ar ôl cwblhau'r broses apelio, ac i ymdrin â nodau’r cynllun, roedd y gost derfynol o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, ac roedd ymhell o fewn cyllideb gymeradwy Cynllun Swyddfa'r Cabinet o £1.5 miliwn.

Rydym yn hyderus y dilynodd y broses yr arfer gorau ac yr ystyriwyd y gwersi a ddysgwyd o'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol blaenorol yn 2015-16. Gwnaethom sicrhau y darparwyd sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ar gyfer pob cam o'r Cynllun. Credwn fod y Cynllun wedi bod yn effeithiol ac wedi cyflawni'r nodau, yn ogystal â chynnig cyfle arwyddocaol i wneud newidiadau sefydliadol gwerthfawr i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

**Cap y Sefydliad**

Ym mis Tachwedd 2017, gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid a datgan:

***Yn y flwyddyn ariannol bresennol, mae'r corff staffio y cytunwyd arno yn cynnwys 460 o swyddi wedi'u llenwi, 27 o swyddi sy'n wag ar hyn o bryd a 4 swydd prentis; felly cyfanswm y swyddi sefydledig yw 491. Gan symud ymlaen, o fewn y terfyn uchaf sefydledig a gytunwyd, bydd y Comisiwn yn ymdrechu i gynnal lefelau effeithiol o wasanaeth i gefnogi Aelodau ac ymgysylltu â'r cyhoedd.***

Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth (Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2019-20) ar 3 Hydref 2018, hysbyswyd y Pwyllgor y canlynol am y Comisiwn:

***at the moment staying within that establishment post count of 491 that we gave you an undertaking last year that we would stay within. And we are managing dynamically to make sure that we can meet the new demands from within that staff cohort.***

Am y 15 mis diwethaf, rydym wedi gallu bodloni'r holl ofynion a osodwyd ar y Comisiwn o fewn y terfyn sefydliad hwn. Rydym wedi llwyddo i gyflawni hyn drwy flaenoriaethu sut rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a thrwy ailddyrannu 12 swydd bresennol yn llwyddiannus o wasanaethau ar draws y Comisiwn, i gefnogi paratoadau ar gyfer Brexit.

Fodd bynnag, yn ein llythyr ar 20 Tachwedd 2018 at y Pwyllgor Cyllid, gwnaethom sicrhau y byddai'r dull uchod yn 'helpu i sicrhau y gall y Comisiwn barhau i ddarparu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad drwy'r heriau penodol a ddaw yn sgil Brexit a Newid Cyfansoddiadol, wrth barhau i weithio, cyhyd ag sy'n bosibl, o fewn cap cyffredinol y sefydliad o 491 o swyddi.' Mewn geiriau eraill, efallai y daw adeg pan fyddai angen dull gwahanol.

Fel y nodwyd, wrth gyflwyno ein trosolwg o'r gyllideb ar ddechrau cyfnod y Cynulliad hwn, roedd yn amhosibl rhagweld effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a newid cyfansoddiadol dros y pum mlynedd, na phryd y byddem yn teimlo'r effeithiau hynny. Rydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw erbyn hyn. Nododd ein hymarferion cynllunio capasiti ym mis Ionawr a mis Chwefror 2019 fwlch sylweddol rhwng y galw a'r capasiti a hefyd nad oedd bellach yn gynaliadwy parhau i ailddyrannu swyddi presennol, heb achosi effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad, er bod y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn llwyddiannus o ran cyflawni ei amcanion, daethom i'r casgliad na fydd yn creu digon o swyddi gwag yn syth i allu bodloni'r gofynion a achoswyd yn bennaf gan Brexit.

Yn ei gyfarfod ar 4 Mawrth 2019, trafododd y Comisiwn gynigion i lacio cap y sefydliad o 491 o swyddi, i ddarparu adnoddau ychwanegol, yn bennaf i wynebu heriau Brexit. Roedd

y Comisiwn yn cydnabod y pwysau ac roedd yn gefnogol mewn egwyddor, ond gofynnodd am ragor o fanylion am y nifer yr adnoddau ychwanegol a ddisgwylir, a sicrwydd y gellid eu rheoli o fewn y gyllideb bresennol.

Rhoddwyd rhagor o wybodaeth i'r Comisiwn yn ei gyfarfod ar 1 Ebrill. Dangosir y wybodaeth hon yn Atodiad 1. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y Comisiwn ar gynnydd i gap y sefydliad o 6 swydd, o 491 i 497.

Rydym wedi ymrwymo i hysbysu'r Comisiwn o’r nifer yn y sefydliad ac unrhyw newidiadau ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn a byddwn yn parhau i edrych yn fanwl ar opsiynau i ailflaenoriaethu swyddi mewnol wrth iddynt ddod yn wag, er mwyn lleihau'r newid cyffredinol i’r sefydliad.

Hefyd, hoffwn achub ar y cyfle hwn i sicrhau'r Pwyllgor ein bod yn parhau i fod mor ymrwymedig ag erioed i ddarparu sicrwydd drwy waith craffu ac archwilio allanol, yn ogystal â'n fframwaith llywodraethu mewnol. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol wrth ategu ein hyder ein bod yn defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol wrth gyflwyno ein gwasanaethau i'r Cynulliad.

Os bydd gennych gwestiynau neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, mae croeso i chi roi gwybod i mi.

Yn gywir



Suzy Davies

cc Gomisiynwyr y Cynulliad, Manon Antoniazzi, Nia Morgan

# Atodiad 1

**Darn o Bapur y Comisiwn, 1 Ebrill 2019.**

Bu cynnydd sylweddol yn nifer ac ystod y gweithgarwch Brexit ers mis Medi 2018, gyda chynnydd ym maint y ddeddfwriaeth (mewn cysylltiad â Brexit ac fel arall) rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Er enghraifft, cyflwynwyd mwy o offerynnau statudol ym mis Ionawr/Chwefror 2019 nag yn ystod 2018 gyfan. Yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2019, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol faint digynsail o ddeddfwriaeth: Bil a 40 o offerynnau statudol.

Ar draws Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad, mae angen cynyddu hyblygrwydd, sgiliau a chydnerthedd i ymateb i'r heriau deddfwriaethol presennol ac yn y dyfodol a heriau eraill. Mae trefniadau staffio tymor byr wedi gweithio'n dda, ond nid ydynt bellach yn gynaliadwy ac mae bwlch sylweddol rhwng y galw a'r capasiti. Fel y disgrifiwyd yn y papur diweddar i'r Comisiwn, gellir ateb y galw hwn os oes gennym rywfaint o hyblygrwydd i amrywio ein sefydliad o gwmpas y cap presennol o 491, gan aros o fewn yr adnoddau ariannol presennol.

Byddai'r gallu i amrywio'r sefydliad a nifer y staff, ochr yn ochr â'n prosesau presennol ar gyfer adolygu ac ailflaenoriaethu swyddi gwag, yn ein galluogi i leihau'r effaith barhaol ar y sefydliad, wrth ein galluogi i ddiwallu anghenion brys. Er mwyn rhoi sicrwydd nad yw'r newidiadau'n mynd yn ormodol, byddem yn bwriadu adrodd ar y nifer yn y sefydliad a newidiadau i'r Comisiwn ym mhob cyfarfod.

Rydym wedi ystyried yn ofalus a fyddai penodiadau cyfnod penodol neu dros dro yn gweithio. Fodd bynnag, ni allwn osod amserlenni diffiniedig yn rhwydd ar gyfer y swyddi y mae angen i ni benodi pobl iddynt. Mae angen i ni fod yn gystadleuol yn y farchnad yn erbyn cyflogwyr eraill sy'n cynnig contractau parhaol ac, yn olaf, o ystyried lefel y newid yn y sefydliad, rydym yn credu y gallwn leihau’r effaith gyffredinol ar y sefydliad. Felly, bydd angen penodiadau parhaol.

Mae angen 6 swydd ychwanegol arnom ar unwaith, fel a ganlyn:

- 2 Swyddog Materion Ewropeaidd/Rhyngwladol, y ddau wedi'u lleoli yn y Gwasanaeth Ymchwil, ond yn cefnogi gweithgareddau ar draws Cyfarwyddiaeth Busnes y Cynulliad. Yn y tymor byr i’r tymor canolig, bydd y swyddogion hyn yn ategu gwaith Brexit. Yn y tymor hwy, mae'r swyddi hyn yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth i ddatblygu arbenigedd ar draws ystod o feysydd polisi, a fydd yn galluogi gwaith

monitro trefniadau ar ôl Brexit yn effeithiol, megis fframweithiau cyffredin, cytundebau masnach, a chytundebau rhynglywodraethol.

- 1 dirprwy glerc i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, i ategu'r cynnydd yn y ddeddfwriaeth oherwydd Brexit, yn ogystal â darparu cydnerthedd i'r tîm hwn yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi gwaith cynllunio olyniaeth; mae gennym Glerc ac Ail Glerc profiadol y mae'r staff yn dibynnu arnynt i gael cyngor ac arweiniad ar waith craffu deddfwriaethol.

- 1 Clerc/Arweinydd Tîm ar gyfer Deddfwriaeth, wedi'i leoli yng Ngwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau, ond yn gweithio ar draws y Gyfarwyddiaeth. Mae llawer o brosiectau y mae angen adnoddau lefel uwch penodol arnynt. Bydd hyn yn rhoi rhagor o hwb i'n capasiti a'n gallu drwy gael arbenigedd a dyfnder gwybodaeth ar draws y broses ddeddfwriaethol gyfan. Byddem yn cylchdroi clercod drwy'r rôl hon, gan gynyddu sgiliau a chydnerthedd ar draws y Gyfarwyddiaeth. Mae hon yn fersiwn wedi'i hail-lunio o swydd sefydledig sydd wedi bod yn wag ers i ddeiliad y swydd symud i rôl dros dro. Bydd llenwi'r swydd wag hon yn barhaol yn cynyddu nifer y staff.

- 1 cyfieithydd cyfreithiol arbenigol ac 1 cyfieithydd ar y pryd/golygydd aml-sgiliau. Wrth i faint busnes y Cynulliad gynyddu, mae'r galw am wasanaeth cyfieithu a chofnodi hefyd yn cynyddu. Mae hyn yn cynnwys cyfieithu ysgrifenedig, cofnodi a chyfieithu ar y pryd. Gellir ateb rhywfaint o'r galw drwy gontractau allanol, ond mae angen adnoddau arbenigol arnom yn fewnol, yn enwedig ar gyfer deddfwriaeth.